GwE

Cydweithio • Dysgu • Llwyddo



# Y DAITH DDIWYGIO

# Papurau Procio


# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | RHAGAIR | 3 |
| 2. | CYFLWYNIAD | 4 |
| 3. | ARWEINYDDIAETH | 5 |
| 4. | GWELEDIGAETH | 9 |
| 5. | ADDYSGEG | 12 |
| 6. | ASESU | 15 |
| 7. | DYLUNIO'R CWRICWLWM | 19 |









# RHAGAIR





Pleser mawr yw rhannu'r darnau meddwl hyn â chi. Buom yn ffodus iawn i weithio gyda'r Athro Graham Donaldson, sydd wedi'n cynghori a'n tywys drwy'r broses. Rydym hefyd yn ddiolchgar i gyd-weithwyr o'r Awdurdodau Lleol, Estyn, Prifysgol Bangor a'r Consortia Rhanbarthol eraill sydd wedi ymuno â ni mewn gweithdai i fireinio ac ailddrafftio'r cynnwys.

Gobeithio bydd y Darnau Meddwl hyn, ochr yn ochr â'r cynnig dysgu proffesiynol, yn sbardun i staff yn eich ysgol ac i glystyrau fyfyrio ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio'n effeithiol, yr hyn sydd angen ei fireinio a'r hyn sydd angen ei newid. Hoffwn eich gwahodd, a'ch annog, i rannu arferion a syniadau ac i fod yn rhan o'r daith dysgu proffesiynol yr ydym i gyd arni wrth baratoi ar gyfer mis Medi 2022.

Mae hyn yn broses ddysgu i ni gyd. Edrychwn ymlaen at gefnogi, rhannu a datblygu datrysiadau er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar arferion rhagorol sydd eisoes ar waith yn ein hysgolion. Gwelwyd arloesi newydd yn ystod y pandemig, a fydd yn sylfaen gref ar gyfer datblygu cynnig newydd i ddysgwyr. Rwy'n sicr y bydd y cynnig cwricwlwm newydd hwn yn sicrhau bod dysgu yn brofiad cadarnhaol iawn i'n dysgwyr, profiad fydd yn cynhyrchu'r safonau uchaf un.



**Arwyn Thomas**
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

# CYFLWYNIAD

Mae'r rhaglen ddiwygio addysg yng Nghymru, sydd yn seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru newydd, yn rhoi ffordd gadarnhaol i symud ymlaen wrth i gyfyngiadau'r flwyddyn ddiwethaf gael eu llacio. Mae nifer o syniadau arweiniol wrth wraidd hyn.

- Dylai'r cwricwlwm a'r addysgeg a'r asesu sydd yn gysylltiedig lifo o'r dibenion clir a gytunwyd yn genedlaethol ac a ddilynir yn lleol.
- Dylai'r dibenion hynny alluogi ein plant ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; yn unigolion iach, hyderus.
- Dylai'r dysgu ddatblygu'n raddol tuag at y dibenion hynny yn ystod amser pobl ifanc yn yr ysgol.
- Dylai athrawon ac ysgolion gael mwy o ryddid i gyflawni'r dibenion hynny mewn ffyrdd sydd yn gallu bodloni anghenion a nodweddion y bobl ifanc a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae rhai goblygiadau pwysig yn deillio o'r syniadau sylfaenol hyn.

- Dylai fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol sefydlu cysondeb yn genedlaethol o ran pwrpas a gweithredu, gan adael lle i wneud penderfyniadau yn lleol am agweddau allweddol ar ddysgu ac addysgu.
- Dylai'r cwricwlwm fod yn broses ble mae cydweithio yn digwydd rhwng athrawon, ysgolion a buddiannau ehangach.
- Ni ddylai atebolrwydd lesteirio ansawdd na chulhau cwmpas y dysgu. Ble bynnag bosibl, dylai wella ansawdd nid sicrhau ansawdd cul.

Dylid barnu llwyddiant y rhaglen ddiwygio yn erbyn y graddau y mae'n arwain at ddysgu gwell a mwy perthnasol i bobl ifanc, ac i safonau cyflawniad uchel. Dylai ansawdd y dysgu a natur safonau ymwneud â'r graddau y mae'r dibenion cytun yn cael eu cyflawni yn ymarferol i'r holl bobl ifanc.

Wrth gwrs, bydd effaith y pandemig yn dylanwadu ar sut y gallwn ni symud ymlaen â'r diwygio. Mae angen i ni ail-sefydlu perthnasedd y pedwar diben arweiniol i bobl ifanc Cymru. Mewn amryw o ffyrdd, mae'r pandemig yn golygu bod y dibenion hynny yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen wrth i ni geisio meithrin hyder ein pobl ifanc ac ail danio eu hawydd i ddysgu. Bu'n rhaid i bawb yn ein plith feddwl yn ddwys am yr hyn sydd yn bwysig o ran dysgu mewn cyfnodau o darfu ar ysgolion, ac mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru newydd yn ymdopi'n dda â'r prawf hwnnw. Gyda'r pandemig, bu'n rhaid newid natur y dysgu a'r addysgu, yn enwedig felly y ffyrdd y gall technoleg ddigidol gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu'n fwy annibynnol.

Mae'r gyfres hon o bapurau gan GwE yn arddel y syniadau a'r goblygiadau hyn. Maent yn gofyn i ni feddwl yn ddwys am bwrpas ac amlygu materion yn ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt os ydym ni am wireddu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y rhaglen ddiwygio. Maent wedi'u mynegi yn iaith y dysgu, nid cyfeiriad y dysgu nac ychwaith y gweithredu. At ei gilydd, maent yn caniatáu cydweithio, archwilio a dysgu all ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer gwireddu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y cwricwlwm newydd i bob person ifanc ym mhob ysgol, ac ym mhob dosbarth ar draws y consortiwm.



**Yr Athro Graham Donaldson**

# ARWEINYDDIAETH

## Cwricwlwm i Gymru: Ystyriaethau i arweinwyr ysgolion

‘***...Arweinyddiaeth yw’r gallu i ddylanwadu ar eraill a’u hysbrydoli i weithredu, ac ymateb efo gweledigaeth a hyblygrwydd mewn cyfnod o dwf, tarfu neu ansicrwydd i arwain at y newid sydd ei angen***.’

Yvonne Ruke Akpoveta, Prifysgol Cornell

Mae’n debyg mai dyma’r her arweinyddol fwyaf erioed i ysgolion wrth iddynt arwain eu hysgolion drwy’r daith ddiwygio. Mae’r pandemig wedi chwyddo’r her hon gan fod arweinwyr ysgol yn gorfod ymateb yn gyflym i gadw pawb yn ddiogel, sicrhau lles pawb a chyflwyno ffordd newydd o ddysgu.

Gyda’r Cwricwlwm i Gymru, daw cyfle i arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys arweinwyr canol a llywodraethwyr, ddylanwadu, cydweithio ac ysbrydoli eraill; y dysgwr, yr athrawon, cymuned ehangach yr ysgol a chyd-arweinwyr ar draws y gyfundrefn. Wrth iddynt arwain cymuned ysgol drwy’r daith hon, dylai arweinwyr gadw’r dysgwyr wrth wraidd unrhyw benderfyniad a gweithredu ac wrth wraidd unrhyw newidiadau y maent yn dylanwadu arnynt. Ar bob cam o’r daith, mae angen i ni atgoffa ein hunain o’r nod a phen y daith; sef bod dysgwyr yn cael darpariaeth well sydd yn arwain at godi safonau yn y pendraw.


Yn ystod y pandemig, mae pob ysgol wedi dangos gallu a hyblygrwydd i addasu i dirlun sy’n newid yn gyson, a gwelwn Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu ar ei orau. Maent wedi arddel themâu ymddiriedaeth, amser, cyd-feddwl a thechnoleg sydd wedi rhoi sylfaen gref iddynt ar gyfer y daith tuag at y Cwricwlwm i Gymru.



### CYFLEOEDD

Mewn cyd-destun arweinyddiaeth, mae’r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig llawer o gyfleoedd. Ymhellach, er mor heriol fu’r pandemig, bu cyfleoedd i ddatblygu a gwelsom bartneriaethau gwell efo rhieni, proffesiwn dysgu mwy medrus, cymhwysedd digidol, a chydweithio rhwng ysgolion a chyrff allanol.






## YR HERIAU

Gall arweinwyr wynebu amryw o heriau ar hyd y daith. Bydd y pandemig yn chwyddo'r heriau hyn ymhellach. Bydd angen i arweinwyr ystyried pryd maent yn cynllunio ac yn gweithredu'r daith ddiwygio. Mae hyn yn cynnwys argyhoeddi'r ysgol gyfan a'r gymuned leol, a sicrhau bod trosglwyddo llyfn rhwng uchelgais a gweithredu. Bydd angen gwneud hyn mewn ffordd gytbwys a chydweithredol nad yw'n cymhlethu'r hyn sydd eisoes yn gymhleth. Her sylweddol i arweinwyr fydd creu cyd-destun i reolwyr da weithio ynddo. Mae'n bwysig grymuso arweinwyr ar bob lefel, a sicrhau bod ganddynt le, amser a dysgu proffesiynol i wireddu'r weledigaeth.




## Y BROSES

Proses, nid digwyddiad yw gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru; mae angen ei gynllunio a'i weithredu fesul cam. Mae angen cynnwys digon o amser er mwyn i'r gweithredu fod yn effeithiol, yn enwedig yn y cyfnod cynllunio. Mae angen blaenoriaethu camau'r daith yn briodol. Cwricwlwm ysgol yw popeth y caiff dysgwyr brofiad ohono, a dylai'r pedwar diben fod yn sail i hyn. Wrth gynllunio'r prosesau, mae angen i ni gynllunio sut rydym yn dathlu llwyddiant ac yn gollwng gafael ar bethau nad ydynt yn gweithio.


Yn ystod y broses hon, bydd angen i rôl pob arweinydd ganolbwyntio ar adnabod cryfderau'r ysgol a gweld ble mae angen datblygu, cyn cynllunio'r camau y mae angen i'r ysgol eu cymryd i yrru'r Daith Ddiwygio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a thu hwnt.

## CAMAU/CYFNODAU

Wrth gychwyn ar y daith hon, bydd arweinwyr ysgol yn canolbwyntio ar weithredu gweledigaeth gyffredin. Bydd rhaid i arweinwyr ystyried pa gamau i'w cymryd a phryd. Drwy fapio llwybr sydd â nifer o gamau ynddo, bydd yn helpu arweinydd i 'weld' y daith o'u blaenau a sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei gweithredu. Bydd y camau hyn yn amrywio o ysgol i ysgol ac o'r naill gyd-destun i'r llall. Gellir eu categoreiddio'n dri maes:

1. Ymgysylltu (mint)
2. Dylunio a Chynllunio (pinc)
3. Treialu, gwerthuso a pharatoi'r addysgu cyntaf (melyn)

Bydd angen i ni hefyd ystyried beth yw'r edefyn aur yn camau hyn; llesiant, dysgu proffesiynol, 3 i 16 a chydweithio ar draws ysgolion. Mae hefyd yn hanfodol bod arfarnu parhaus trwy gydol y broses, gan ddechrau gyda arfarniad o arferion cyfredol yr ysgol ac arfarnu'r cynnydd ar hyd y camau. Bydd angen cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhanddeiliaid wrth i ysgol gweithio drwy'r camau o'r daith.




Dyma feini prawf llwyddiant posibl ar gyfer Arweinyddiaeth yn ein hysgolion wrth i ni weithredu Cwricwlwm i Gymru...

**..fel dysgwr yn fy ysgol byddaf yn:**

- gweld ac yn teimlo bod y pedwar diben wrth wraidd popeth mae'r ysgol yn ei wneud
- gwybod bod fy lles yn bwysig
- gwybod lle i droi am help
- gallu mentro a gwneud camgymeriadau ar hyd y ffordd mewn lle diogel
- gwybod y bydd fy ngwaith yn fy herio i feddwl, cael disgwyliadau uchel o fy hun a fy helpu i fod yn annibynnol
- cael cyfleoedd i arwain fy nysgu fy hun
- gweld perthnasoedd da o'm hamgylch
- teimlo bod gen i lais a bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn gweld fy ngwerth
- cael sicrwydd fy mod i'n cael fy nghefnogi
- cael adborth gwerthfawr sy'n fy helpu i wella
- unigolyn ac yn dathlu fy llwyddiannau fy hun a rhai eraill efo'i gilydd
- cydnabod bod fy athrawon yn dysgu wrth fy ochr i er mwyn bod yr athrawon gorau y gallant fod
- cael sicrwydd bod fy addysg yn fy mharatoi am y dyfodol
- cydnabod bod yr ysgol yn dysgu popeth y dylwn i wybod ac rydw i'n cael cyfleoedd i ddatblygu fy niddordebau
- falch o fod yn rhan o fy nghymuned leol, yn ddinesydd Cymru a'r Byd
- cael cyfleoedd i weithio a dysgu efo plant a phobl ifanc eraill o gwmpas y byd
- cydnabod bod fy ysgol yn fy helpu gyda fy nyfodol drwy fod yn ymwybodol o'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy

**Yn athro, byddaf yn:**

- sicrhau bod y pedwar diben yn sail i fy ngwaith
- cydweithio ymhellach â chydweithwyr yng nghymuned fy ysgol ac yn bellach
- rhan o ddysgu proffesiynol priodol ar y Cwricwlwm i Gymru
- defnyddio ymchwil a thystiolaeth ymholi i ddatblygu fy arferion dosbarth ymhellach
- sicrhau bod diwylliant 'sefydliad sy'n dysgu' yn amlwg yn fy arferion
- datblygu ymhellach fy sgiliau technegol i gyflwyno dysgu effeithiol i fy holl fyfyrwyr
- manteisio ar sesiynau hyfforddi a hwyluso er mwyn i mi ddatblygu ymhellach yn broffesiynol
- sicrhau bod gweithdrefnau hunan asesu cadarn ar waith yn fy nosbarth
- cyfrannu at astudiaethau achos ar arferion effeithiol a hwyluso sesiynau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt

**Yn rhiant, byddaf yn:**

- dysgu gan yr ysgol sut mae'r pedwar diben yn sail i bopeth a wna fy mhlentyn
- gweld sut mae fy ysgol yn gweithio gyda'r gymuned ehangach ac yn dysgu ohoni
- cael sicrwydd bod yr athrawon yn yr ysgol yn mynd i sesiynau dysgu proffesiynol o safon uchel fel y gallant gefnogi fy mhlentyn i ddysgu
- dysgu beth yw sefydliad sy'n dysgu, a bod yn rhan o'r daith honno a minnau'n un o'i rhanddeilaid pwysicaf
- cael cymorth ac anogaeth gan fy ysgol i ddatblygu fy sgiliau technegol fel y gallaf gefnogi fy mhlentyn i ddysgu
- sicr bod fy ysgol yn defnyddio'r holl strategaethau asesu sydd ar gael er mwyn cael darlun cyfan a chyfansawdd o alluoedd fy mhlentyn.
- cefnogi fy mhlentyn i ddysgu drwy chwarae rhan weithredol.







# PAPUR PROCIO: GWELEDIGAETH

## DIFFINIAD O WELEDIGAETH:

- Nid syniad yw gweledigaeth ar y cyd ond grym yng nghalonnau pobl – ateb i 'Beth ydym eisiau ei greu?' (*Peter Senge*)
- Datganiad syml yw gweledigaeth y mae'r holl randdeiliaid yn ei gludo gyda nhw drwy'r holl brosesau meddwl dros amser ac mae'n gweithredu fel egwyddor arweiniol.

## DIFFINIAD O WELEDIGAETH AR GYFER CYMRU 2021 A THU HWNT:

- Gweledigaeth fel grym gwthiol beunyddiol sy'n pennu newidiadau a blaenoriaethau, mawr neu fach.
- Gweledigaeth sy'n defnyddio'r pedwar diben fel y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer dyluniad cwricwlwm yr ysgol.
- Gweledigaeth sy'n cwmpasu pawb yng nghymuned yr ysgol fel dysgwyr; yn cynnwys disgyblion, athrawon, arweinwyr, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr.

**Yr hyn mae gweledigaeth yn ei olygu i:**

<u>Ddisgyblion</u>
- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Fel dysgwr yng Nghymru, beth sydd ei angen arnoch i allu llwyddo yn y byd rydych yn byw ynddo?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer disgyblion yn golygu fod ganddynt:
- Brofiadau dysgu gwell sy'n cynnwys cyfleoedd dysgu cyfoethog a chyd-destunau dysgu dilys sy'n caniatáu i ddisgyblion gymhwyso a mireinio eu sgiliau a'u gwybodaeth?
- Resymau go iawn dros gymryd rhan mewn dysgu sy'n eu hannog i fod yn greadigol, i barhau i ofyn cwestiynau ac i gyfrannu eu meddyliau a'u barnau?
- Yr hyder eu bod yn cael eu cefnogi i ddeall sut maent yn dysgu a sut i fyfyrio ar eu gwaith a gwneud cynnydd?
- Ddiogelwch wrth wybod bod yr ysgol yn eu hadnabod yn dda fel unigolion, yn darparu cyfleoedd iddynt gydweithio ag eraill, yn eu hannog i flaenoriaethu eu lles eu hunain ac yn eu grymuso i fod yn uchelgeisiol ac i fod â disgwyliadau uchel?
- Amgylchedd diogel ar gyfer cymryd risgiau pwyllog ac i wybod ble a sut i gael cymorth pe bai angen?

**<u>Rhieni/Gofalwyr</u>**
- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Sut allwch chi gefnogi eich hun a'ch plentyn/plant i allu llwyddo yn y byd maen nhw'n byw ynddo?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer rhieni a gofalwyr yn golygu eu bod nhw:
- Yn bartner gweithredol a gwerthfawr wrth gyfrannu i'r weledigaeth?
- Yn gallu cymryd rhan mewn cyfathrebu dwyffordd, ystyrlon, gyda'r ysgol?
- Yn gallu sefydlu perthynas sy'n canolbwyntio ar ddysgu ac sy'n ymgorffori cyd-ymddiriedaeth a pharch?
- Yn cael cyfleoedd i gyfrannu at ddysgu eu plentyn/plant?
- Yn cael eu hannog i deimlo'n falch o'u plant ac i fod yn rhan weithredol o'r hyn y mae eu plant wedi ei gyflawni?

**Athrawon**

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Beth sydd ei angen arnoch er mwyn bod yr athro gorau y gallwch fod?*
- *Beth mae'n ei olygu i alluogi'ch dysgwyr i lwyddo yn y byd maen nhw'n byw ynddo?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer athrawon yn golygu fod ganddynt:

- Gyd-ddealltwriaeth o lwyddiant?
- Hyder i ddatblygu creadigrwydd ac arloesedd, y grymusiad i gyfrannu i'r weledigaeth a dod â hi'n fyw a'r cyfle i gymryd cyfrifoldeb?
- Ymdeimlad cryf o les unigol a chyfunol sy'n eu caniatáu i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi o fewn eu proffesiwn, i wybod y caiff eu llais ei glywed, i fod â disgwyliadau uchel ac i fod yn falch o addysgu yng Nghymru?
- Gyfleoedd i ddatblygu set eang o sgiliau, i gael dealltwriaeth ddofn o addysgu effeithiol ac i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus?
- Amser digonol i feddwl ar y cyd, i gynnal perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedus ac i gydweithio gydag eraill yn eu hysgolion eu hunain a chydag ysgolion eraill?
- Y sgiliau i ddatblygu fel arweinwyr ac i sefydlu partneriaethau cartref-ysgol cryf?
- Ofod diogel a'r rhyddid i gymryd risgiau pwyllog, i ddod yn wneuthurwyr cwricwlwm gweithredol sy'n hwyluso dysgu ac i ddarparu ystafelloedd dosbarth cynhwysol sy'n cefnogi cynnydd pob dysgwr?

**Arweinwyr Ysgolion**

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Beth sydd ei angen arnoch er mwyn bod yr arweinydd gorau y gallwch fod?*
- *Beth mae'n ei olygu i greu hinsawdd dysgu ffyniannus i bawb?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer athrawon yn golygu fod ganddynt:

- Gyd-ddealltwriaeth o sut beth yw llwyddiant ar draws y pedwar diben?
- Ffocws ar ddysgu gwell a deilliannau uwch?
- Ffocws priodol ar gydnabod a datblygu ethos ysgol gyfan sy'n hyrwyddo'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu ac sy'n hyrwyddo dysgu parhaus ar bob lefel?
- Ymdeimlad cadarn o'u lles eu hunain a lles eraill, ymagwedd wylaidd, y gallu i wrando, ac awydd i ddeall ac i ymgysylltu â chymunedau lleol?
- Parodrwydd i wneud cyfraniad ystyrlon i ddatblygu dysgu?
- Ffocws ar greu amser ar gyfer meddwl gyda'n gilydd fel ysgol a chymuned sy'n dysgu, ac i hyrwyddo grymuso staff?
- Y sgiliau i ddatblygu partneriaethau ymddiriedus gyda rhwydwaith o ysgolion, i sefydlu cyfathrebu dwyffordd eglur o fewn eu hysgolion eu hunain ac i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r holl randdeiliaid?
- Ethos o arweinyddiaeth trwy syniadau yn hytrach nag arweinyddiaeth trwy reolaeth?

**Llywodraethwyr**

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Sut all y corff llywodraethu gefnogi'r ysgol wrth ddod â'r weledigaeth yn fyw?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer llywodraethwyr yn golygu fod ganddynt:

- Gyd-ddealltwriaeth o sut beth yw llwyddiant ar draws y pedwar diben?
- Y parodrwydd i wneud cyfraniad gweithredol i fywyd ysgol a balchder wrth wneud gwahaniaeth?
- Ffocws eglur ar gynrychioli'r ysgol o fewn y gymuned ehangach?
- Y sgiliau ar gyfer gwrando, cefnogi, herio a chraffu ar waith yr ysgol er mwyn cyflawni safonau uwch i bawb?

**Y gymuned ehangach**

- *Beth yw'r man cychwyn cyfredol?*
- *Sut all y gymuned ehangach chwarae rôl weithredol wrth gyfrannu at y cwricwlwm?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer y gymuned ehangach yn golygu bod:

- Busnesau lleol yn cael cyfleoedd i gyfrannu at brofiadau dysgwyr?
- Cydgyfrifoldeb a pharodrwydd i ymrwymo ar draws y gymuned ehangach?
- Y gymuned ehangach yn gallu cyfrannu i ddysgu trwy well cyfleoedd o fewn diwydiant, trwy dechnoleg well, a thrwy gynghori ar y sgiliau y bydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn diwallu anghenion gweithlu'r dyfodol?
- Y gymuned ehangach yn gallu cyfrannu i weledigaeth yr ysgol trwy ddarparu ymwybyddiaeth o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a sut i leihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas.

**Pam mae angen i ni newid?**

- Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi pedwar diben eglur i ni ar gyfer addysg. Felly, mae gennym yn awr y cyfle i ofyn pam? Beth yw anghenion pob dysgwr ar gyfer ffynnu a chyfrannu at 21ain Ganrif sy'n newid yn gyson a datblygu'n dechnolegol?
- Ni fydd y weledigaeth bresennol o angenrheidrwydd yn cefnogi'r cwricwlwm newydd. Felly, pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau all ysgolion eu cynnig i ganiatáu dysgwyr ddatblygu'r pedwar diben?
- Mae cyfnod Covid wedi dod â heriau sydd wedi newid y ffordd mae ysgolion yn gweithio a gweithredu. Beth all ysgolion ddysgu o'r profiad hwn a pha gyfleoedd allwn ni eu datblygu ac adeiladu arnynt er mwyn creu gwytnwch newydd, mwy o annibyniaeth disgyblion, gwell creadigrwydd a dysgu digidol gwell?

**Beth sydd angen i ni ei newid?**

- Bydd y newidiadau sydd eu hangen ar lefel ysgol yn benodol i ysgolion unigol a bydd angen iddynt grisialu gweledigaeth y pedwar diben ar lefel leol.
- Bydd cyfle i ystyried gweledigaeth ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Ar lefel weithredol, mae gofyn am newid diwylliannol trwy lunio ailddiffiniad cyffredin o lwyddiant. Dylai hyn gynnwys casgliad o ddangosyddion sy'n fwy eang a mwy ansoddol, wedi eu perchnogi gan bawb yn cynnwys y gymuned ehangach. Dros amser, bydd y dangosyddion hyn yn newid a datblygu wrth i ysgolion ennill gwell dealltwriaeth.
- Mae angen i'r gwaith o ddylunio gweledigaeth newydd, sy'n cynnwys cwricwlwm lleol o fframwaith cenedlaethol, ganiatáu ac ymgorffori penderfyniadau cydweithredol lleol.
- Mae angen i'r weledigaeth newydd adlewyrchu cwricwlwm fel proses sy'n brofiad ac a fydd yn esblygu yn hytrach na fel cynnyrch terfynol.

**Sut ydym yn mynd ati i wneud y newidiadau hynny?**

Mae'n rhaid i ni:

- Sicrhau fod yr holl randdeiliaid yn rhan o'r sgwrs ynghylch pam mae'r newidiadau hyn yn digwydd ac wrth ail osod y weledigaeth. Bydd hyn yn sicrhau fod pawb yn teimlo perchnogaeth, yn gallu gweld eu rolau eu hunain ac fe fydd yn cyflawni dealltwriaeth gyffredin o lwyddiant.
- Gwneud y defnydd gorau o Ddysgu Proffesiynol GwE ar gyfer uwch arweinwyr. Bydd hyn yn annog myfyrio a thrafodaeth ar y broses o ddatblygu gweledigaeth ar y cyd trwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid.
- Sicrhau fod ymddygiadau dymunol yn cael eu modelu gan bawb trwy ddiwylliant o ymddiriedaeth a chyfathrebu eglur a chynhwysol.
- Cynnal llif eglur o gyfathrebu a chydweithio trwy berthnasoedd agored a chadarnhaol. Adeiladu hyder trwy gadw popeth yn syml a sicrhau bod y prif ffocws ar y dysgwyr bob amser.

# ADDYSGEG

## PAPUR PROCIO: ADDYSGEG

Mae **addysgeg** yn cwmpasu mwy na’r ‘addysgu’ sy’n digwydd drwy ddulliau yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Mae’n ymwneud â dethol y dulliau hynny’n ystyriol yng nghyd-destun dibenion y cwricwlwm ac anghenion a chyfnod datblygiadol y plant a phobl ifanc ar draws y continwwm 3-16. Mae’n galw am gyfuno gwybodaeth a sgiliau damcaniaethol ac ymarferol â barn fanwl ynghylch yr hyn sydd ei angen i hybu dysgu effeithiol mewn cyd-destunau penodol. Mae wrth wraidd yr hyn sy’n gwneud athro neu athrawes ragorol.

*(‘Dyfodol Llwyddiannus’ t.63)*


Bydd addysgeg gadarn yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu llawer mwy na gweithredu repertoire o ddulliau sydd wedi’i bennu ymlaen llaw ac yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a’r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu. Mae’r goblygiadau o ran creu athrawon sy’n ymarferwyr myfyriol ac o ran datblygu ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu yn sylweddol.

**Cwestiynau allweddol i’w hystyried (p.52 ‘Canllawiau Cwricwlwm i Gymru’)**

1. Sut y byddwn yn creu diwylliant sy’n annog ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth ddofn o addysgeg a’r sgil i ddewis y dull gweithredu addysgegol mwyaf priodol?
2. Sut y byddwn yn sicrhau bod addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei datblygu a’i hymestyn?
3. Sut y bydd ein gweledigaeth ar gyfer dysgu yn adlewyrchu’r deuddeg egwyddor addysgeg?
4. Pa amgylchedd dysgu y mae angen i ni ei greu i gefnogi ein gweledigaeth ddysgu’n llawn?

**Addysgeg**

Gwneud synnwyr o’r rhyngweithio a’r perthnasau sy’n arwain at ddysgu




**<u>Pam mae angen i ni newid?</u>**

- Mae’r angen am newid yn eglur iawn os ydym am ddatblygu cwricwlwm sy’n cefnogi ac yn galluogi addysgu a dysgu o’r radd flaenaf yn yr unfed ganrif ar hugain. Os yw Cwricwlwm i Gymru am gael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd ar ddysgu a chyflawniad plant a phobl ifanc, mae’n hanfodol ein bod yn ystyried yn llawn y goblygiadau ar gyfer addysgeg. Mae cyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng 4 diben y cwricwlwm, addysgeg ac asesu.
- Mae plant a phobl ifanc am i wersi fod yn fwy perthnasol a diddorol, gyda mwy o wersi ymarferol, mwy o hwyl, mwy o ryngweithio, a mwy o weithgareddau y tu allan i’r ystafell ddosbarth. Mae teimlad bod y brwdfrydedd mwy cyffredinol dros ddysgu wedi cael ei aberthu yn yr ymgiprys am gymwysterau.
- Mae angen sylweddol i symud oddi wrth ‘ddysgu am bethau’ at ‘ddysgu i wneud pethau’, gyda mwy o sylw i sgiliau a phwyslais ar gymhwyso a meithrin uwch sgiliau, yn enwedig creadigrwydd, entrepreneuriaeth a llythrennedd digidol.
- Rhoddir sylw cynyddol i ddibenion asesu a’r defnydd ohono, yn enwedig ei gyfraniad hanfodol at addysgu a dysgu.
- Yn yr un modd, roedd cynrychiolwyr busnes yn bryderus iawn bod ysgolion wedi colli cysylltiad â datblygiadau mewn gweithleoedd digidol. Credent fod y gallu i ddefnyddio technoleg yn greadigol i ymchwilio a datrys problemau’n gymwyseddau allweddol ac roeddent am weld y cymwyseddau hyn mewn darpar weithwyr. (‘Dyfodol Llwyddiannus’ Pennod 2)

**Beth sydd angen i ni ei newid?**

**Mae angen i ni wneud y canlynol:**

- Ymdrechu dros barhad a dilyniant dulliau addysgeg ar draws y continwwm 3-16, sy'n gosod y pedwar diben wrth graidd addysgu a dysgu gyda llesiant yn y canol.
- Dyfnhau dealltwriaeth athrawon o'r dulliau addysgeg priodol ar gyfer diwallu anghenion unigol plant a phobl ifanc yn hytrach na'r dulliau a ffefrir gan athrawon.
- Creu profiadau dysgu ystyrlon sy'n herio ac yn ysgogi anghenion a chyd-destunau unigol holl blant a phobl ifanc Cymru. Sut ydyn ni'n cynllunio profiadau dysgu perthnasol ac atyniadol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gwneud cynnydd cyson a dyfnach sy'n briodol i'w camau datblygu?
- Cynllunio profiadau dysgu sy'n datblygu ac integreiddio'r uwch sgiliau trawsgwricwlaidd lefel uwch a'r sgiliau cyfannol yn llawn.
  Datblygu cymwyseddau digidol ymhellach i ganolbwyntio ar addysgeg, datblygu sgiliau dyfnach, trosglwyddadwyedd a dealltwriaeth, yn ogystal â chymhwysiad posibl y cymwyseddau hyn. Adeiladu ar y profiadau a'r cynnydd a gafwyd trwy'r dulliau dysgu cyfunol o addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb yn ystod pandemig Covid-19.

**Sut mae mynd ati i wneud y newidiadau hynny?**
**Beth mae hyn yn ei olygu i bob arweinydd ac ymarferydd addysgeg?**

**Pa mor dda ydyn ni'n:**

- Creu, datblygu a gweithredu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer addysgeg gyda'r holl randdeiliaid er mwyn gwireddu'r pedwar diben?
- Gwerthuso ein harfer cyfredol? Sut ydyn ni'n gwybod 'beth yw' a 'ble mae' ein cryfderau mewn arferion addysgeg a beth sydd angen ei ddatblygu ymhellach?
- Darparu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol (DP) i'r holl staff addysgu drafod a rhannu arfer da? I fyfyrio ar ymchwil addysgol gyfoes a chaniatáu datblygiad proffesiynol parhaus a all wella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau addysgeg pob ymarferydd yn ogystal ag ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgol a chlwstwr. Sut mae'n cefnogi eu gwaith mewn perthynas â'r safonau proffesiynol?
- Modelu addysgeg effeithiol ar draws y continwwm? Sut mae dilyniant a chyflymder y 12 egwyddor addysgegol yn edrych yn ymarferol o safbwynt addysgu a dysgu ar gyfer pob cam a phob angen?
- Sicrhau cyfleoedd i arbrofi gyda dulliau newydd ac i ganiatáu amser i rannu, myfyrio a mireinio?
- Sicrhau bod gennym ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr? A yw ymarfer dosbarth ac ar-lein yn llwyddiannus wrth ymglymu'r holl ddysgwyr i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel sy'n briodol uchel wrth iddynt symud drwy'r ysgol a'r continwwm?
- Archwilio a gwireddu potensial yr amgylchedd dysgu y tu mewn a'r tu allan? Ar ben hynny, sut y gall trefniadaeth, arferion a pherthnasoedd ystafell ddosbarth hwyluso gwahanol ddulliau a phrofiadau dysgu yn ogystal â datblygu lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol plant a phobl ifanc.
- Archwilio ***Addysgeg Neilltuol*** sy'n gyffredin i ddisgyblaethau penodol a Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) sy'n diwallu anghenion dysgwyr unigol a'r amcanion dysgu?
- Gwreiddio asesu ar gyfer dysgu fel egwyddor addysgeg yn gyson mewn ymarfer ystafell ddosbarth? Sut mae'n rhoi mewnwelediad i ymarferwyr o effeithiolrwydd addysgu a dysgu ac yn ystyried atebolrwydd a disgwyliadau allanol?
- • Ystyried addysgeg wrth ddylunio asesiadau? Ydyn ni'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso sgiliau a gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd i gydweddu â'u hoff arddulliau dysgu a chymhwyso?
- • Sicrhau bod dulliau addysgeg yn cynnig profiadau eang tra'u bod hefyd yn caniatáu cyfleoedd i weithio gydag arholiadau a chanlyniadau? Ni allwn ddiystyru arwyddocâd cymwysterau wrth lunio bywydau pobl ifanc.


**Darllen ac ymchwil pellach**

- Dyfodol llwyddiannus ar [llyw.cymru]
- Canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar [Hwb]
- Offeryn 12 Egwyddor Addysgegol GwE (sy'n crisialu'r ymchwil, y llenyddiaeth a'r ymarfer mewn ysgolion)
- Rhwydwaith cenedlaethol 'Trafod Addysgeg' ar [Hwb] a [Microsoft Teams]

Offeryn Addysgeg GwE Pedagogy Tool

**Geirfa**

***Addysgeg Neilltuol*** *(Signature Pedagogies)* - dealltwriaeth o brofiadau sy'n caniatáu i ddysgwyr feddwl a gweithredu yn yr un modd ag arbenigwyr mewn maes arbennig.



# ASESU

## PAPUR PROCIO: ASESU


Y dysgwyr yw prif berchnogion gwybodaeth asesu a dylent chwarae rhan allweddol yn eu proses o ddysgu. Mae asesu, cynllunio cwricwlwm ac addysgeg yn gyd-ddibynnol ac mae angen eu cynllunio ochr yn ochr â'i gilydd.

Yn ôl 'Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau Asesu' Cwricwlwm i Gymru, prif ddibenion asesu yw:

- **Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**
- Nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- **Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion**

Mae hefyd yn nodi :
*"Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol o ran sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun holistaidd o'r dysgu - ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu - er mwyn llywio'r camau nesaf yn y dysgu a'r addysgu."*

**Egwyddorion Allweddol Asesu**




*Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu Cwricwlwm i Gymru*

**Pam mae angen i ni newid?**

- Mae rhai prosesau asesu yn ddiangen ac nid ydynt yn cyd-fynd gydag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru
- Mae angen i asesu adlewyrchu'r newidiadau i'r weledigaeth, y cwricwlwm a'r addysgeg yn effeithiol.

**Beth sydd angen i ni ei newid?**

Mae angen i ni:

- Gynyddu'r pwyslais ar asesu ffurfiannol effeithiol ac ar drafod ac asesu'r dysgu gyda dysgwyr.
- Annog mwy o ddeialog broffesiynol rhwng yr holl staff o fewn ysgolion a rhwng ysgolion gyda ffocws ar: asesu er mwyn galluogi cynnydd disgyblion, sut i gynnal trafodaeth effeithiol am eu dysgu gyda dysgwyr a dulliau o gynllunio ac adolygu camau nesaf dysgwyr, a thrwy hynny ddyfnhau'r dysgu.

**Sut ydym yn mynd ati i wneud y newidiadau hynny?**

Mae angen i ni:

- Gynnwys yr holl randdeiliaid wrth ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer asesu a phwrpas y prosesau.
- Gymryd amser i fyfyrio a chynllunio. Er enghraifft, y ffordd orau o ddefnyddio'r Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig, egwyddorion cynnydd a disgrifiadau dysgu i gynllunio prosesau asesu.
- Ystyried yn ofalus y pwrpas/rheswm dros unrhyw asesu. Er enghraifft, a yw'n berthnasol? Pa ddefnydd a wneir o wybodaeth asesu?

## PWY SYDD ANGEN BETH O ASESU?

**Beth sydd ei angen ar ddysgwyr?**
**Mae dysgwyr angen:**

- Adborth amserol am eu cynnydd presennol a chyfeiriad ar gyfer eu camau dysgu nesaf. Er enghraifft, ar ffurf adborth dyddiol gan oedolion, cyfoedion, hunan asesu yn y dosbarth a hefyd o asesiadau cyfnodol.
- Dathlu ac atgyfnerthu llwyddiannau a chymhelliant ar gyfer dysgu pellach.
- Perchnogaeth ar wybodaeth asesu a chwarae rhan ganolog mewn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach:
  - cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth;
  - dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn meysydd;
  - coethni a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau;
  - creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd;
  - cynyddu effeithiolrwydd fel dysgwr.
- Dealltwriaeth dda o sut maen nhw'n dysgu ac yn datblygu fel dysgwyr hyderus, annibynnol.
- Amgylchedd dysgu sy'n eu galluogi i asesu eu dysgu yn effeithiol, i drafod camgymeriadau neu gamdybiaethau yn hyderus ac i roi a derbyn adborth yn barchus.

**Beth sydd ei angen ar ymarferwyr?**
**Maen nhw angen:**

- Gwybodaeth berthnasol, ymarferol, hygyrch y gellir ei defnyddio'n hyblyg i gynllunio ar gyfer dilyniant dysgwyr, yn ddyddiol yn y dosbarth ac o asesiadau cyfnodol.
- Gwneud defnydd da o asesu ffurfiannol a sicrhau ymateb effeithiol i adborth
- Gallu rhoi eu hamser a'u hegni i addysgu, a chydnabod bod cymryd amser i siarad â dysgwyr a gwrando arnynt, yn asesu gwerthfawr.
- Gallu asesu'r dysgwr trwy ddefnyddio data mwy ansoddol, gan ddefnyddio dull mwy cyfannol o adolygu cynnydd a nodi camau nesaf. Dylid canolbwyntio ar les a metawybyddiaeth yn ogystal â chynnydd academaidd.
  Er enghraifft, ystyried gwaith dysgwyr, eu datblygiad fel dysgwyr a derbyn mewnbwn gan rieni / staff cymorth / asiantaethau allanol.

- Yr amser i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol effeithiol a rheolaidd ar gynnydd dysgwyr gyda chydweithwyr eraill ac arweinwyr yr ysgol a, phan fo'n berthnasol, rhwng ysgolion. Er enghraifft, ymgysylltu â chymheiriaid, deialog broffesiynol, cyfarfodydd trosglwyddo.

**Beth sydd ei angen ar arweinwyr ysgolion?**
**Maen nhw angen:**

- Prosesau syml, effeithiol ar gyfer nodi cynnydd dysgwyr a chael darlun clir o addysgu a dysgu. Dylent wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio cyfeiriad strategol effeithiol ar gyfer yr ysgol a rhannu'r wybodaeth yn briodol â gwahanol randdeiliaid a chynulleidfaoedd.
- Meithrin amgylchedd sy'n seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, yn hytrach nag ar gydymffurfio ac adrodd.
- Sicrhau dysgu proffesiynol effeithiol i'r holl staff er mwyn iddynt ddatblygu arferion asesu ffurfiannol cryf.
- Trafodaethau rheolaidd a gwybodus ar asesu rhwng arweinwyr canol, uwch arweinwyr a llywodraethwyr, er mwyn cefnogi cynllunio strategol ar gyfer datblygu'r ysgol.

**Beth sydd ei angen ar rieni/gofalwyr?**
**Mae angen iddyn nhw:**

- Dderbyn gwybodaeth a sicrwydd am gynnydd eu plentyn/plant a dathlu ei lwyddiannau academaidd a'i lwyddiannau fel person ifanc.
- Fod yn rhan o gyfathrebu amrywiol a rheolaidd gyda'r ysgol i rannu gwybodaeth am gynnydd eu plentyn/plant a gwybod sut orau i gefnogi dysgu pellach a chynnydd.

## CWESTIYNAU I'W HYSTYRIED

- Pa arferion asesu cyfredol sydd angen i chi eu cadw/ ailfeddwl/ newid/dileu?
- Pa effaith fydd adborth yn ei gael ar gynnydd dysgwyr ac addysgu? E.e. *Sut fydd dysgwyr yn gwella eu gwaith yn seiliedig ar adborth llafar yn y foment ac ar adborth ysgrifenedig?*
  *Sut fydd athrawon yn addasu eu haddysgu mewn ymateb i adborth gan/i ddealltwriaeth dysgwyr?*
- Sut fydd eich arferion asesu yn llywio addysgu a dysgu?
- Sut fyddwch yn sicrhau bod dysgwyr yn chwarae rhan lawn mewn asesu a chynllunio eu cynnydd?
- Sut fydd eich dulliau asesu yn cefnogi'r pedwar diben?
- Sut fyddwch yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant - yn eich ysgol a rhwng clwstwr o ysgolion?
- Sut fyddwch yn sicrhau mai prif bwrpas asesu yw darparu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn hytrach nag atebolrwydd?
- Pa wybodaeth fydd ei hangen arnoch a phryd? Pa ddefnydd fyddwch chi'n ei wneud o'r wybodaeth?
- Sut fydd yr wybodaeth yn ddefnyddiol i ddysgwyr/rhanddeiliaid?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau bod rhieni'n rhan o bartneriaeth ddysgu effeithiol?
- Sut ydych chi'n bwriadu symud ar hyd y continwwm o asesu meintiol i asesu ansoddol?
- Sut allech chi greu'r gofod a'r gallu i ddatblygu a defnyddio asesu yn effeithiol?

**Darllen pellach:**

- Canllaw Cwricwlwm i Gymru
  https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/
- Cwricwlwm i Gymru – Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllaw Asesu
  https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/
- *Assessment for Learning: Using the right tools and resources to notice and respond to progress across the curriculum* (Cwricwlwm Seland Newydd)
  https://nzcurriculum.tki.org.nz/Strengthening-local-curriculum/Leading-local-curriculum-guide-series/Assessment-for-learning
- *Assessing and monitoring Pupil Progress EEF*
  https://educationendowmentfoundation.org.uk/tools/assessing-and-monitoring-pupil-progress/
- *Rethinking Assessment (bigeducation.org)*
  https://bigeducation.org/blogs-ra/







# CYNLLUNIO'R CWRICWLWM

## PAPUR PROCIO: CYNLLUNIO'R CWRICWLWM


**Beth yw Cynllunio'r Cwricwlwm?**

Proses yw cynllunio'r cwricwlwm. Mae'r egwyddorion a'r ystyriaethau pwysig a ddylai lywio'r broses honno yn cynnwys datblygu:

- gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm mewn ysgol
- strwythur cwricwlwm i wneud y weledigaeth honno'n realiti

**Pam mae angen i ni newid ein cynllunio cwricwlwm presennol?**

Mae'r dystiolaeth o arolygon y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), perfformiad cymharol plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn cymwysterau cenedlaethol, a gwerthusiadau yn adroddiadau Estyn i gyd yn dangos nad yw'r lefelau cyrhaeddiad mor uchel ag y gallent ac y dylent fod. – *Dyfodol Llwyddiannus*.




**Pam Cynllunio'r Cwricwlwm?**

Mae'n hanfodol y dylai holl blant a phobl ifanc Cymru allu elwa o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu a fydd yn diwallu eu hanghenion orau a'u paratoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Dim ond amser cymharol fyr sydd gan ein plant a'n pobl ifanc yn yr ysgol felly mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r amser hwnnw'n ddoeth ac yn

gynhyrchiol er mwyn helpu pob un i dyfu'n unigolyn galluog, iach a chyflawn a all ffynnu yn wyneb heriau anhysbys yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae cynllun y cwricwlwm yn aml ar ffurf fframwaith o bynciau i'w haddysgu dros gyfnod penodol megis cyfnodau allweddol. Mae'r dull hwn o ymdrin â'r cwricwlwm yn cynnwys diffinio'r hyn y dylai pob plentyn (neu grwpiau o blant) ei brofi. Mae dull amgen yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar ganlyniadau disgwyliedig dysgu. Yn y dull hwn mae'r cwricwlwm yn aml yn cael ei fframio o ran y sgiliau, y galluoedd neu'r cymwyseddau allweddol a fydd yn cael eu datblygu mewn plant a phobl ifanc.

Mae'r ddadl 'pwnc yn erbyn sgiliau' yn y ddau ddyluniad cwricwlwm hyn yn creu cymariaethau di-fudd. Mae angen i gwricwlwm effeithiol ennyn brwdfrydedd plant a phobl ifanc tuag at ddysgu mewn ffyrdd sy'n cynnwys cyfraniad hanfodol dysgu ar sail disgyblaeth a'r wybodaeth, y sgiliau a'r anian a fydd yn eu helpu i ddiwallu anghenion heddiw a heriau yfory.

Dylid diffinio'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru fel un sy'n cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd wrth geisio dibenion cytunedig addysg. Dylai'r dibenion hyn ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch cwricwlwm, addysgeg ac asesu.

*T. 14 Dyfodol Llwyddiannus – Egwyddorion cynllunio'r cwricwlwm – dyllai'r cwricwlwm fod: yn ddilys, wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn ymatebol, yn gynhwysol, yn uchelgeisiol, yn rymusol, yn unedig, yn ddiddorol, wedi'i seilio ar sybsidiaredd, yn hawdd ei drin.*

**Pwyntiau allweddol ar gyfer cynllunio cwricwlwm lleol**

- Dylai cwricwlwm lleol fod yn unigryw ac yn ymatebol i flaenoriaethau, dewisiadau a materion dysgwyr, rhieni a chymuned yr ysgol.
- Dylai'r hyn sy'n gweithio'n dda, ac sy'n gwella dysgu i bawb, fod wrth wraidd cynllunio cwricwlwm lleol.
- Efallai na fyddwn yn darganfod yr hyn sy'n gweithio orau yn syth neu ar gyfer pob dysgwr. Mae deall mai taith yw hon yn golygu y gallwn barhau i herio a gwerthuso ein syniadau, ein systemau a'n prosesau wrth i ni ddysgu ar hyd y ffordd.

**Beth sydd angen i ysgolion ei newid?**

**Dylai ysgolion wneud y canlynol:**
- Adeiladu cwricwlwm sy'n caniatáu i ddysgwyr fynd ar ôl y pedwar diben.
- Cydweithio i sicrhau bod continwwm dysgu rhwng cyfnodau / sectorau.
- Adolygu strwythur, dosbarthiad a'r dyraniad amser ar gyfer disgyblaethau a staffio
- Gwerthuso a chwestiynu: pam ydyn ni'n gwneud hyn a sut mae'n datblygu'r dysgu?
- Ystyried rôl mesurau atebolrwydd a deilliannau perfformiad. Mae'n rhaid i ysgolion baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau a chymwysterau. **Ni ddylent gyfaddawdu'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu ein dysgwyr.**
- Sicrhau mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr

**Gwneud y weledigaeth yn realiti**

**Er mwyn creu'r cwricwlwm o'r weledigaeth mae'n rhaid i ni ystyried y canlynol:**
- **Beth ddylem ei addysgu a pham?**
- **Sut ddylem ei addysgu?**
- **Sut fydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i wireddu'r pedwar diben?**

Mae angen i ni ofyn i'n hunain:
- A ydym yn cynnwys yr holl randdeiliaid mewn sgwrs am y tri chwestiwn hyn?

- A yw gweledigaeth, gwerthoedd, ethos, lleoliad ac amgylchedd yr ysgol yn sail i'r cwricwlwm hwn?
- Sut y bydd asesu yn cefnogi'r cwricwlwm hwn yn ogystal â'r dysgu?

***Dylai'r rhyddid dewis hwn gael ei danategu gan broses o gynllunio'r cwricwlwm sy'n seiliedig ar dystiolaeth, lle mai'r nod bob amser yw helpu dysgwyr i wireddu'r pedwar diben***

- Sut ydym yn dewis cynnwys y cwricwlwm?
- Sut allwn ni gefnogi ein hathrawon wrth ddewis y profiadau, yr wybodaeth, y sgiliau a'r cyd-destun a fydd yn cefnogi'r dysgu orau?
- Sut mae'r dysgu wedi'i strwythuro orau?
- Pa ddysgu proffesiynol fydd ei angen ar ein hathrawon?
- Ar gyfer dysgwyr, sut mae'r cwricwlwm yn cyfrannu at wireddu'r pedwar diben a chaffael y sgiliau annatod sy'n sail iddynt?
- Sut mae'r cwricwlwm yn cefnogi'r datblygiad o ymdeimlad o hunaniaeth y dysgwyr yng Nghymru?
- A yw'r cwricwlwm yn eang a chytbwys?
- A yw'r cwricwlwm yn briodol ar gyfer y dysgwyr o ran oedran, gallu a dawn?
- Sut mae'r cwricwlwm yn galluogi dilyniant priodol ar hyd y continwwm dysgu?
- Sut mae'r cwricwlwm yn ymgorffori cyfleoedd ar gyfer cymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd?
- Sut mae'r cwricwlwm yn ymgorffori asesu ar gyfer dilyniant dysgwyr?
- Sut mae'r cwricwlwm yn tynnu ar lais y dysgwr ac yn ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr?

**Pa strwythur ddylai danategu'r dysgu a darparu'r un disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr?**

**Mae angen i ni ofyn i'n hunain:**
- Sut allwn ni ddefnyddio profiadau, arbenigedd, sgiliau ac angerdd ein hathrawon / tîm orau er mwyn darparu cwricwlwm cyfredol a pherthnasol?
- Sut fyddwn yn cefnogi dilyniant ar hyd y continwwm dysgu a sut ydyn ni'n cydweithredu i sicrhau trosglwyddo effeithiol ar draws yr ystod oedran 3 i 16?
- Ai'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yw'r strwythur cyflwyno mwyaf effeithiol ar gyfer cyflawni'r pedwar diben?
- Ai strwythur confensiynol cyfredol yr wythnos - 25 x gwers 1 awr neu 30 x 50 munud mewn ysgolion uwchradd - a'r dyraniad amser presennol i wahanol bynciau - yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol er mwyn cyflawni'r hyn sy'n amlwg yn gwricwlwm gwahanol iawn? A oes angen ailedrych ar ddosbarthiad yr amser cyflwyno ochr yn ochr â'r sgyrsiau ynghylch dysgu?
- Sut ydyn ni'n sicrhau bod egwyddorion dilyniant yn gyrru'r broses gynllunio ac nid y thema'n unig o fewn y dull thematig (os yw ysgol yn penderfynu mai cwricwlwm thematig yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen)?
- Ai amseriadau a threfniadaeth carfannau ysgolion ar hyn o bryd sydd orau o ran diwallu anghenion y cwricwlwm newydd? A oes angen i ni edrych yn hyblyg ar amseriadau'r diwrnod a grwpiau?
- Beth yw'r ffordd orau i ni ddefnyddio amser digyswllt athrawon / staff cymorth i gefnogi datblygiad y cwricwlwm?

**DYSGU O BROFIAD**
- Gan fyfyrio ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod pandemig Covid-19 – beth allwn ni ei gymryd o'r profiad hwn wrth symud ymlaen?
- A ydym yn gweld diben addysg yn wahanol?

**MODELAU CYNLLUNIO'R CWRICWLWM**
**A ydych chi wedi ystyried modelau gwahanol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm?**


| MODEL | DIFFINIAD |
| --- | --- |
| Disgyblaethol | Addysgu arbenigol o fewn disgyblaethau neu byncaiu |
| Amlddisgyblaethol | Mewn cwricwlwm amlddisgyblaethol caiff un pwnc ei astudio o safbwynt mwy nag un ddisgyblaeth. |
| Rhyngddisgyblaethol | Mae'n cyfuno sawl pwnc ysgol mewn un prosiect gweithredol neu mae wedi'i drefnu i dorri ar draws llinellau pwnc, gan dynnu amrywiol agweddau ar y cwricwlwm ynghyd i gysylltiad ystyrlon.<br>Mae'n tynnu gwybodaeth a sgiliau o ddwy ddisgyblaeth neu fwy mewn ffordd fwy cysylltiedig<br>Mae'n mynd i'r afael â phroblem gymhleth neu gwestiwn na ellir ei ddatrys trwy ddefnyddio un dull disgyblaethol e.e. *Pandemig Byd-eang* |
| Integreiddiedig | Dull rhyngddisgyblaethol, trefniadol yn bennaf, sy'n chwalu ffiniau pynciau traddodiadol - naill ai'n rhannol (e.e. pynciau hybrid) neu'n llawn (e.e. dull ysgol ganol yr UD) |

**Cwestiynau i'w hystyried**

- Pa mor effeithiol fyddai'r model cwricwlwm a ddewiswyd wrth wneud cysylltiadau o fewn a rhwng gwybodaeth a sgiliau a MDaPh, ac ati?
- Pa mor dda y mae'r model yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd?
- Pa mor dda y mae pob model yn datblygu dealltwriaeth ddofn o les, cynaliadwyedd, cydraddoldeb a newid yn yr hinsawdd?
- A yw'r themâu neu'r cwestiynau mawr yn sicrhau dysgu cyfoethog a thrylwyr ar draws meysydd pwnc?
- Sut mae sicrhau bod dilyniant yn cael ei ymgorffori yn y model cwricwlwm?
- Sut ydym yn sicrhau bod dulliau amlddisgyblaethol neu ryngddisgyblaethol yn darparu dysgu cyfoethog a thrylwyr ym mhob un o'r pynciau cysylltiedig?
- A fyddem yn mapio'r model hwn ar draws y cwricwlwm cyfan?
- Sut allai'r model hwn effeithio ar ddilyniant dysgu o fewn meysydd?
- Sut allwn ni ddarparu'r amser a'r lle i athrawon ymgymryd â chynllunio cydweithredol?
- Sut ydyn ni'n cefnogi ein hathrawon i drosglwyddo o'r hen gwricwlwm i'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd?
- A yw model penodol yn fwy addas i rai meysydd dysgu yn fwy nag eraill? Pam?
- Sut mae pob dull yn edrych ar draws y continwwm 3-16?
- Sut allem drefnu'r dysgu i sicrhau na chollir cysyniadau allweddol?
- Sut ydym yn osgoi rhoi sylw arwynebol i rai cysyniadau allweddol?
- Sut allwn ni gyfateb y gwahanol ddulliau gyda pharatoi ar gyfer arholiadau?







GwE

Cydweithio • Dysgu • Llwyddo


0300 500 8087

post@gwegogledd.cymru

www.GwEGogledd.Cymru

@GwEGogleddCymru